

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2019

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cyngorwyr D Williams (Cadeirydd), J Cleverly, H Thomas, J Watkins, J Richards and S Marshall

Sarah Morgan (Chief Education Officer), Katy Rees (Assistant Head of Education - Inclusion), Deborah Weston (Service Development Manager), Karyn Keane (Assistant Head of Education - Engagement & Learning) and Daniel Cooke (Cyngorydd Craffu)

Yn bresennol: G Giles

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr M Linton, C Townsend and T Watkins

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

2 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019

Derbyniwyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 yn gofnod gwir a chywir.

3 Adroddiad cynllun gwasanaeth canol blwyddyn-addysg

Yn bresennol:

- y Cyngorydd Gail Giles, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau
- Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a sgiliau yr adroddiad a rhoddodd drosolwg llawn gwybodaeth i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at y ffaith bod y gwasanaeth addysg yn gwasanaethu pob ysgol a gynhelir yng Nghasnewydd ac yn darparu cymorth ar gyfer lleoliadau cyn-ysgol i ddisgyblion a oedd mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Parhaodd yr Aelod Cabinet i ddweud bod y gwasanaeth yn gyfrifol am naw ysgol uwchradd, 43 o ysgolion cynradd a dwy ysgol feithrin. Yn ogystal, roedd uned cyfeirio disgyblion a dwy ysgol arbennig. Roedd Casnewydd yn un o'r pum awdurdod lleol yng nghonsortium rhanbarthol GCA ar gyfer gwella ysgolion. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys 11 tîm a ddarparodd y cymorth canlynol:

- Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Blynyddoedd Cynnar
- Lles Addysg
- Cymorth Busnes Addysg
- GEMS - Cymorth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent
- Cerdd Gwent
- Ysgolion Iach

- Tîm Cyfoethogi Cynhwysiant
- Derbyn i Ysgolion
- Uned Atgyfeirio Disgyblion
- Ymgysylltu a Chynnydd Pobl Ifanc

Yn 2018/19, derbyniodd y Cyngor adroddiad cadarnhaol gan Estyn, Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen rhagor o waith gan Wasanaeth Addysg y Cyngor i barhau i ddatblygu a gwella addysg yng Nghasnewydd. Fe'u nodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2019/20.

Amlinellwyd yr amcanion llesiant fel a ganlyn, Amcan 1 - gwella sgiliau, addysg a chyfleoedd cyflogaeth. Amcan 2 - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd Amcan 3 – galluogi pobl i fod yn bobl iachus, annibynnol a gwydn, yn unol â'r themâu corfforaethol: Pobl Uchelgeisiol a Chymunedau Cryf

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Cadeirydd, cyfeiriodd at y polisi 'Rheoli Arfau Mewn Ysgolion' a gofynnodd a oedd pryder ynghylch arfau yn ysgolion Casnewydd. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau y bu saith digwyddiad mewn un flwyddyn, eglurwyd yr amrywiaeth o ddigwyddiadau i'r Pwyllgor, gan gynnwys defnyddio gynau ffug mewn chwarae yn ysgol Llanwern. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod digwyddiadau'n eithriadol o brin. Roedd cysylltiadau wedi'u meithrin gyda'r heddlu a'r Cynllun Troseddau Ieuenctid i roi pecynnau yn yr ysgol i ganolbwyntio ar waith ataliol. Roedd y polisi'n hyrwyddo proses er mwyn bod yn rhagweithiol pe bai unrhyw ddigwyddiadau pellach yn codi.
- Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i'r swyddog am ffigurau presenoldeb. Codwyd enghraifft am ddisgybl yn ysgol uwchradd Casnewydd nad oedd ond angen iddi fynychu un awr y dydd. Byddai'r Prif Swyddog Addysg yn ymchwilio i hyn, gan na fyddai'n rhoi adlewyrchiad cywir o ffigurau presenoldeb a byddai'n fwy tebygol bod hyn yn achos o ailgyflwyno'n raddol i'r ysgol.
- Teimlai aelodau'r Pwyllgor nad oedd digon o wybodaeth i gefnogi'r penawdau coch ac ambr o dan y risgiau yn y maes gwasanaeth, megis 21^{ain} Ganrif ar hugain, a oedd yn destun pryder. Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod y risgiau yn mesur cyfnod penodol o gyllid a gallai'r costau godi dros amser, er enghraifft, roedd y risg yn ymwneud â Brexit yn golygu y gallai costau gynyddu. Roedd pot o arian ond roedd rhai costau na ellid eu rhagweld megis gwaith adeiladu. Roedd sgôr o 5 yn gymharol isel ond roedd gwasanaethau addysg yn lliniaru cymaint ag y gallent drwy ragfynegi gwariant a phrojectau gosod cyflymder.
- Gofynnodd y Pwyllgor pam mae'r pecynnau cymorth ar gyfer ysgolion yn dangos risg diogelu ambr (o dan risg maes gwasanaeth) ond nid o dan y grant Lles Disgyblion mewn Addysg. Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod lles y disgybl yn dangos addysg ar ei phen ei hun, fodd bynnag, roedd y risg i'r maes gwasanaeth yn cyfeirio at y maes gwasanaeth corfforaethol, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, gan ddangos data ar draws y Cyngor.
- Cododd y Pwyllgor ymholiad pellach yn ymwneud â'r pecyn cymorth. Dangosodd y Cynllun fod 15% o ysgolion yn defnyddio'r pecyn cymorth. Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod gan bob ysgol drefniadau diogelu ar waith ond nad oeddent i gyd yn defnyddio'r pecyn cymorth, gan fod Estyn wedi caniatáu gwahanol opsiynau i'r ysgolion, gan gynnwys fformat hunanwerthuso'r awdurdod lleol neu waith papur yr ysgol ei hun. Er nad oedd dull unffurf ar ryw adeg yn y dyfodol, byddai hyfforddiant clwstwr a byddai'r Swyddog Diogelu Addysg yn anelu at gynnal proses hirdymor, byddai hyn yn cymryd amser ond rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd unrhyw beth o'i le â systemau

gwahanol sydd ar waith ar hyn o bryd. Roedd y Prif Swyddog Addysg yn hapus i roi enghreifftiau i'r Pwyllgor o'r pecynnau cymorth a ddefnyddir gan ysgolion.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y risgiau yn y maes gwasanaeth gan dynnu sylw at y pryder ynghylch cyllid ysgolion/pwysau cost. Cynhaliwyd dadl hir ynghylch Ysgol Gyfun Caerllion a'u diffyg presennol, a oedd ateb, neu beth y gallai'r Pwyllgor ei wneud a allai gael effaith gadarnhaol ar eu sefyllfa nhw, yn ogystal â pha ddylanwad y gallai'r Prif Weithredwr newydd ei gael i ddelio â'r pryderon hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau mai'r prif fater oedd cyllid. Cafwyd trafodaeth hir ar ddsbarthu cyllid o'r Llywodraeth ganolog i Gyllideb Addysg yr Awdurdodau Lleol, yn ogystal â sut yr oedd cyllidebau'n cael eu dirprwyo i gyrff llywodraethu eu monitro. Cydnabu'r ALI fod angen monitro camau gweithredu ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gwario o fewn eu dulliau fel arall; byddai'n dod yn risg i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd diffyg cefnogaeth na chyngor i ysgolion gan yr ALI.
- Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd ar waith ar hyn o bryd o ran hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a phe bai hyn ar gynnydd, gan mai dim ond un disgybl oedd yn y pedair ysgol a oedd angen addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod y Cyngor yn darparu gofod adnoddau dysgu, dywedodd y Prif Swyddog Addysg fod yn rhaid i ni ystyried a oedd y boblogaeth yn bodoli i gefnogi hyn, ac felly y dylai fod yn ymwybodol o'r gost. Nodwyd bod prinder deunyddiau addysgu i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol (cynhwysiad) fod Grŵp Cynllunio Dechrau Cymraeg ar gael i gefnogi hyn ac y byddai'n cael ei drafod yn y clwstwr ADY. Roedd diffyg adnoddau ar gyfer ADY wedi'i gyhoeddi yn Gymraeg hefyd ond roedd yr awdurdod lleol yn gweithio'n fwy rhagweithiol ar gyfer arferion hyfforddi ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r bwriad o edrych ar rannu'n genedlaethol yn ogystal ag o fewn Casnewydd. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru a chynllun datblygu yn cael ei roi ar waith gydag athrawon. Byddai CDU wedi'i ariannu yn rhoi syniad o bobl ifanc sydd angen arian ychwanegol. Roedd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gan ei fod yn llinell denau oherwydd y costau. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai cyllid yn effeithio ar ysgolion Saesneg eu hiaith, megis prinder offer ysgol. Byddai hyn yn fater i'r ysgol unigol a byddai angen mynd i'r afael â diffyg cyfarpar gyda'r ysgol berthnasol.
- Gofynnodd y Pwyllgor pam mae gofal plant y tu allan i'r ysgol cyn ac ar ôl ysgol yn dangos fel ambr, gan fod y 2,266 o leoedd gofal plant yn cael eu darparu gan y sector preifat. Cytunodd y Prif Swyddog Addysg mai'r sector preifat oedd yn darparu gofal plant y tu allan i'r ysgol ac roedd y gwasanaethau addysg yn gweithio ar hyn yn gyson i annog mwy o leoedd meithrin. Dangoswyd, fodd bynnag, ei bod yn ambr oherwydd gallai'r ysgolion gollir safle er ei bod yn cael ei rhedeg gan y sector preifat.
- Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith bod nifer ostyngedig o swyddogion yn ymdrin â phresenoldeb, a allai effeithio ar swyddogion sy'n rheoli presenoldeb mewn ysgolion. Er mai un swydd swyddog yn unig a gollwyd, efallai y byddai pryder yn ystod misoedd y gaeaf. Gyda hyn mewn golwg, roedd gwasanaethau addysg yn ymdopi gyda'r swyddogion oedd ar waith. Hysbysodd y Prif Swyddog Addysg y Pwyllgor fod presenoldeb wedi gwella eleni. Yr hyn a helpodd i wella presenoldeb oedd y ffyrdd gwahanol o weithio, a oedd wedi helpu ysgolion i wella eu presenoldeb. Byddai swyddogion yn ceisio bod yn gymesur a gweithio gyda'i gilydd yn gorfforaethol fel tîm ar draws y gwasanaethau. Efallai y byddai effaith ond ni fyddai hyn o reidrwydd yn cyflwyno'i hun tan y flwyddyn nesaf. Roedd Swyddogion Lles Addysg yn gweithio ar lwythi achosion mwy o faint ar draws Casnewydd ac yn dibynnu ar ysgolion i wella presenoldeb ac edrych ar absenoldebau tymor hir. Roedd hyn yn digwydd ledled Cymru a gallai fod yn risg pe byddai rhagor o ostyngiadau mewn staffio. Manteisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau ar y cyfle i sôn am y gwaith gwych yr oedd ysgolion yn ei wneud o dan yr amgylchiadau. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai Adolygiad Mesur Perfformiad a beth fyddai'r newidiadau i ysgolion, pe bai unrhyw syniadau am

ddisgwyliadau. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg fod ysgolion yn mesur absenoldeb o'r system yn hytrach na phresenoldeb, bod lefel uchel o absenoldeb yng Nghasnewydd; Roedd seminar i bob aelod ar y mater hwn. Byddai gan bob ysgol uwchradd chwe tharged CA4 ar ddatgloi potensial.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg y bu twf yn y boblogaeth, disgyblion yn mudo i mewn i ddinasoedd a disgyblion ôl-16 yn newid ysgolion ar draws Casnewydd. Roedd gan Lyswry a Llanwern leoedd gwag; esboniwyd hyn gan y rheolwr gwasanaeth ar gyfer adnoddau a chynllunio fel dosbarthiadau swigod, a oedd yn dod drwedd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bu cynnydd mewn ystadau tai o amgylch Casnewydd; fodd bynnag, roedd digon o leoedd o hyd. Gyda hyn mewn golwg, roedd gan y gwasanaethau addysg grŵp ar gyfer ADY a'r boblogaeth ysgol ehangach. Byddai rhai ysgolion yn ehangu drwy leoedd Ysgolion yr 21ain Ganrif a dalgylchoedd. Byddai ysgolion ychwanegol yng Nghasnewydd yn gostus ac felly byddai'n rhaid iddynt wneud y defnydd gorau o'r ysgolion sydd eisoes yno. Gellid rheoli'r cynnydd am y pum mlynedd nesaf ac roedd ffigurau ychydig o dan farc gormodedd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, os oedd brawd neu chwaer yn yr un ysgol ond yn y chweched dosbarth, ni fyddai hyn yn cael ei ystyried gan y gallai newid ei lwybr ar yr adeg honno.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol:

- Daniel Cooke - Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Blaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Blaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod Pwyllgor nesaf:

19 Tachwedd 2019, yr eitemau agenda yw;

- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc - Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Cynllun Gwasanaeth
- Gwasanaethau Oedolion a'r Gymuned - Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Cynllun Gwasanaeth

14 Ionawr 2020, yr eitemau ar yr agenda yw:

- Addysg, Plant-2020-2021 Cynigion Cyllideb Ddrafft a'r CATC
- Gwasanaethau Pobl Ifanc - 2020-2021 Cynigion Cyllideb Ddrafft a'r CATC
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Chymunedol - 2020-2021 Cynigion Cyllideb Ddrafft a'r CATC

b) Taflen Weithredu

Nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified